
Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Bwletin y Farchnad HCC

Chwefror 2020


**Mae data Kantar Worldpanel yn dangos bod cyfaint y cig oen o Brydain a werthwyd mewn siopau ac ati wedi gostwng yn ystod 2019, tra bod cyfanswm y gwariant yn gymharol wastad yn ystod yr un cyfnod. Bydd Bwletin y Farchnad y tro hwn yn edrych yn fanylach ar berfformiad mân-werthiant cig oen yn ystod 2019.**




Yn ôl data Kantar Worldpanel ar gyfer 2019 (y 52 wythnos tan 29 Rhagfyr 2019), gwariwyd cyfanswm o £581.8 miliwn ar gig oen yn y mannau manwerth. Mae'r gwariant hwn am y flwyddyn yn sefydlog ac yn debyg i'r gwariant flwyddyn ynghynt - i fyny 0.2% (neu £1.4 miliwn), ac mae wedi bod yn gymharol sefydlog am y tair blynedd diwethaf. Cafwyd gostyngiad o 1.7% i 61,200 tunnell yng nghyfanswm cyfaint y cig oen a brynwyd ym Mhrydain mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol.

O ran cyfaint y cig oen a werthwyd, roedd gwahaniaeth rhwng y categorïau gwahanol. Er enghraifft, cafwyd y cynnydd mwyaf mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol, yng gwerthiant briwgig oen, sef cynnydd o 4.9%. Digwyddodd hyn er bod y pris cyfartalog wedi codi 17c/kg. Coesau i'w rhostio oedd y gyfran fwyaf (40.7%) o'r cig oen a werthwyd. Fel y gellid disgwyl, roedd coesau i'w rhostio hefyd yn cyfrif am y gyfran uchaf o wariant (38.2%), sef 1.8% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Ar yr un pryd, cynyddodd cyfran y gwariant ar friwgig oen 7.4% i gyfanswm o £50.9 miliwn. Cafwyd cynnydd o 0.4% i £550.2 miliwn yn y gwariant manwerth ar gig oen ffres ym Mhrydain, ond cafwyd gostyngiad o 1.9% yn y gwariant ar gig oen wedi'i rewi.

**Cyfran y gwariant ar gategorïau o gig oen yn ystod 2019**
**(DU; 52 wythnos yn diweddu 29 Rhag 2019)**





Ffynhonnell: Kantar Worldpanel


**Beth sy'n gyrru'r newid?**
Er gwaethaf y gostyngiad cyffredinol yng nghyfanswm y cyfaint a brynwyd, arhosodd y gwariant yn gymharol sefydlog oherwydd cynnydd o 2.0% i £9.50/kg yn y pris cyfartalog (o'i gymharu â 2018). Efallai bod cynnydd yn y pris cyfartalog wedi chwarae rhan yn y gostyngiad a welwyd yng nghyfaint y cig oen a werthwyd y llynedd. Gwelwyd gostyngiad yng nghyfanswm y cig oen a brynwyd yn ystod 2019 am fod 2.3% yn llai o aelwydydd na'r llynedd (52%) wedi ei brynu. Er gwaethaf hyn, prynwyd tua'r un maint o gig gan bob prynwr, sef 4.2kg. Er bod 1.8% yn llai yn cael ei brynu yn ystod pob taith siopa, roedd y cig yn cael ei brynu 1.5% gwaith yn amlach. Mae'n debygol taw'r rheswm am hyn oedd cyfleustra, ac am fod defnyddwyr yn prynu cig oen ar gyfer eu pryd bwyd ganol wythnos yn hytrach nag ar gyfer cinio dydd Sul yn unig.

Wrth edrych ar ddemograffeg aelwydydd, mae'r data'n awgrymu bod aelwydydd hŷn (45+ oed) a'r aelwydydd hynny heb blant yn cyfrif am gyfran uchel o'r cig oen a brynwyd (o ran cyfaint yn ogystal â gwariant). Prynwyd y rhan fwyaf o gig oen gan aelwydydd â dau o bobl, gydag aelwydydd ag un person yn dynn ar eu sodlau. Mae hyn yn awgrymu taw dyna'r ddau fath o aelwyd allweddol. Prynodd nifer gynyddol o aelwydydd â 4 neu 5 person friwgig oen (+11.5% a +3.7%, yn y drefn honno) mewn cymhariaeth â chig oen yn gyffredinol. Mae hyn yn awgrymu efallai fod y cynnydd mewn gwerthiant briwgig yn gysylltiedig â thwf mewn teuluoedd sy'n ymgysylltu â chig oen.

**Golwg ar y Nadolig:**
Yn ôl ystadegau Kantar Worlpanel, yn y cyfnod o 4 wythnos tan 29 Rhagfyr 2019, cafwyd gostyngiad o 6.5% yng nghyfaint y cig oen a brynwyd ym Mhrydain. Gostyngodd cyfanswm y gwariant ar gig oen hefyd (-2.7%) er bod y pris ar gyfartaledd wedi codi. O ganlyniad, roedd cyfanswm y cig oen a werthwyd yn ystod y 4 wythnos hyd at y Nadolig yn 2019 yn cyfrif am 10.2% o'r hyn sy'n cael ei werthu'n flynyddol. Mae'r ffigurau hyn yn dangos natur gystadleuol y farchnad gartref.

Cymerwch gip ar ymgyrch gynaliadwyedd newydd HCC "Y Ffordd Gymreig", sy'n tynnu sylw at rinweddauau cynaliadwy Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI, sydd ar gael yma: https://advertorial.immediate.co.uk/hcc-meat/uniquely-welsh/index.html.









## GWARTHEG

Roedd pris cyfartalog gwartheg yn y marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr yn uwch nag blwyddyn yn ôl am y tro cyntaf eleni. Roedd y pris yn 187.3c/kg yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 15 Chwefror (+2.1c mewn cymhariaeth â'r llynedd). Mae'r pris pwysau byw cyfredol yn 1.3c yn is na'r cyfartaledd pum- mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 188.6c/kg). Yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 15 Chwefror, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych yn 328.7c/kg, sef 0.8c yn is nag yn yr wythnos flaenorol a 18.1c yn is nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2019. Roedd prisiau pwysau marw heffrod yn 330.5c/kg, sef 0.9c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol, a phrisiau teirw ifanc yn 306.5c/kg (-3.4c).

Roedd nifer yr holl wartheg a laddwyd mewn lladd-dai yn y DU yn 238,000 pen ym mis Ionawr, sef 1.1% yn is nag ym mis Ionawr 2019, ond 9.4% yn uwch nag ym mis Rhagfyr. Parhaodd cyfanswm y gwartheg dethol a laddwyd yn ystod y mis i fod yn sefydlog mewn cymhariaeth â'r mis cyfatebol y llynedd; lladdwyd 170,200 pen (-0.3%). O fewn y cyfanswm hwn, lladdwyd 87,800 o fustych, sef 1.2% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Parhau'n sefydlog wnaeth nifer yr heffrod; lladdwyd 70,300 (-0.1%). Cafwyd gostyngiad mawr, fodd bynnag yn nifer y teirw ifainc; lladdwyd 12,100 (10.8% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol). Nifer fach a gafodd eu lladd ym mis Rhagfyr, hefyd, sef dim ond 10,200. Cynhyrchwyd 0.7% yn fwy o gig eidion a chig llo am fod y carcasau'n drymach. Roedd pwysau cyfartalog carcasau gwartheg dethol yn 3.7kg yn drymach nag ym mis Ionawr 2019.









## DEFAID

Mae'r Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) pwysau byw mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru yn dal i fod yn uwch nag blwyddyn yn ôl; roedd y pris yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 15 Chwefror yn 239.0c/kg. Dyma'r pris uchaf a gofnodwyd ers canol 2018, ac mae'n 51c yn uwch nag oedd yn yr wythnos gyfatebol y llynedd ac yn uwch hefyd na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 187.8c/kg) Mae prisiau mamogiaid difa mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru hefyd wedi parhau'n gryf ers dechrau 2020 ac roedden nhw'n £68.60 yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 15 Chwefror, sef £21.10 yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol y llynedd, a £2 .50 yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Roedd prisiau ŵyn pwysau marw ym Mhrydain yn 522.8c/kg yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 15 Chwefror (26.2c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2019).

Cyfanswm yr holl ddefaid a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Ionawr oedd 1.17 miliwn pen, sef 12.4% yn llai nag ym mis Rhagfyr, ond rhywbeth yn debyg i'r mis cyfatebol y llynedd (-0.6%). Roedd nifer yr ŵyn dethol a laddwyd yn debyg i mis Ionawr 2019 (+0.7%), ond lladdwyd 10.1% yn llai o famogiaid a hyrddod difa. Wrth edrych ar y cyfnod rhwng Mai 2019 a Ionawr 2020, mae niferoedd yr ŵyn dethol, sef 10.2 miliwn pen, yn 3.0% yn uwch nag oeddynt flwyddyn yn gynharach. Roedd y cynnyrch cig defaid ar gyfer y mis yn debyg i fis Ionawr 2019 – am fod nifer y defaid a laddwyd a phwysau'r carcasau yn debyg: ŵyn dethol (+0.2kg) a mamogiaid difa (+0.7kg).




## MOCH

Roedd Prisiau'r Holl Foch (APP) Manyleb-UE ym Mhrydain yn 164.6c/kg yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 08 Chwefror, sef rhywbeth yn debyg i'r wythnos flaenorol (+0.2c), a 21.4c yn uwch na'r wythnos gyfatebol yn 2019. Wrth i brisiau barthau i godi'n uwch na'r duedd dymhorol oddi ar fis Medi, mae'r pris erbyn hyn yn 23.8c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 140.8c/kg). Roedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg yn yr wythnos yn diweddu 08 Chwefror yn £59.07 y mochyn (31.2% yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl) ac roedd y pris cyfartalog am berchyll 7kg yn £42.51 y mochyn (+16.8%).

Roedd nifer yr holl foch a laddwyd yn lladd-dai'r DU yn 980,500 pen ym mis Ionawr, sef 2.6% yn fwy nag ym mis Rhagfyr, a 1.7% yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r nifer a laddwyd yn arbennig o uchel ar gyfer Ionawr, ac mae'n 30,700 yn fwy na'r cyfartaledd pum-mlynedd ar gyfer y mis (2015-2019: 949,800 pen). Lladdwyd 17.3% yn llai o hychod a baeddod na'r llynedd, efallai am fod cynhyrchwyr yn dal eu gafael ar anifeiliaid magu er mwyn sicrhau mwy o gyflenwad yn dilyn y galw am brotein o wledydd Asia. Cynhyrchwyd 2.0% yn fwy o borc nag yn y mis cyfatebol y llynedd am y cafodd mwy o foch heb fagu (+20,300 pen) eu lladd.